**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Cynllunio

**Dyddiad y Cyfarfod:** 16 Hydref 2013

**Aelod/ Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd David Smith, Parth Cyhoeddus
Angela Loftus – Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

**Awdur yr Adroddiad:** Claire MacFarlane, Swyddog Cynllunio

**Teitl:** Tai fforddiadwy – cyfrifiad interim ar gyfer cyfraniadau ariannol

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn egluro dull interim arfaethedig ar gyfer cyfrifo cyfraniadau ariannol gogyfer â thai fforddiadwy, mewn datblygiadau o 3-9 annedd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r broses arfaethedig o wneud y cyfrifiad uchod ac yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i ddefnyddio'r dull hwn wrth benderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio, tra disgwylir i Ganllawiau Cynllunio Atodol ym maes Tai Fforddiadwy gael eu mabwysiadu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cytuno ar y dull o gyfrifo cyfraniadau ariannol tuag at dai fforddiadwy mewn datblygiadau o 3-9 annedd, cyn mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol newydd ym maes tai fforddiadwy.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1. Mae polisi'r Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn â thai fforddiadwy yn gosod cwota y dylai 10% o unrhyw ddatblygiadau preswyl newydd fod yn dai fforddiadwy. Y trothwyon ar gyfer hyn yw (i) darpariaeth ar y safle mewn datblygiadau sydd â 10 neu ragor o anheddau a (ii) chyfraniad ariannol gan ddatblygiadau o 3-9 annedd. Ni fydd disgwyl i ddatblygiadau o lai na 3 wneud unrhyw ddarpariaeth tuag at dai fforddiadwy.

4.2. Mae gwneud darpariaeth ar y safle yn gyfrifiad syml, sef10% nifer yr unedau a fwriedir (neu gellid ei gyfrifo yn defnyddio ffigyrau dwysedd y Cynllun Datblygu Lleol). Fodd bynnag, nid yw polisi'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi ar ba sail y dylid cyfrifo cyfraniadau ariannol mewn datblygiadau o 3-9 annedd.

4.3. Bydd y dull terfynol o gyfrifo'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r Canllawiau Cynllunio Atodol newydd ym maes Tai Fforddiadwy a bydd manylion ynglŷn

â'r dull hwnnw wedi ei gynnwys yn y canllawiau. Fodd bynnag, o ystyried yr amserlenni sy'n gysylltiedig â symud tuag at fabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn a'r diffyg canllawiau penodol sydd yng ngeiriad polisi'r Cynllun Datblygu Lleol, mae cytuno ar fecanwaith dros dro gogyfer â datblygiadau 3-9 annedd yn flaenoriaeth.

4.4. Mae sawl sail bosibl gogyfer â gwneud y cyfrifiad hwn ond ystyrir y byddai costau adeiladu yn cynnig sail syml a rhesymol. Byddai'r cyfraniad yn cael ei gyfrifo yn defnyddio gwybodaeth am ganolrif costau adeiladu (£/m2) fel eu cyhoeddir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu ar-lein) ac arwynebedd llawr cyfartalog y datblygiad arfaethedig. Er enghraifft, byddai datblygiad **3 annedd** gyda chyfartaledd arwynebedd llawr o 90m2 yn darparu:

9m2 x £825/m2 = £74,250 x 10% = £7,425 yr annedd x 3 annedd = **cyfraniad ariannol o £22,275**

Byddai'r un datblygiad gyda **9 annedd**, o ddefnyddio'r un ffigurau, yn cynhyrchu cyfraniad ariannol o **£66,825.**

4.4. Ystyrir y bydd fformiwla sy'n defnyddio ffigwr cydnabyddedig safonol y diwydiant ar gyfer costau adeiladu yn darparu rhagor o gysondeb ac yn rhoi rhagor o sicrwydd i ddatblygwyr a swyddogion na mynd i mewn i drafodaethau dros wir gostau adeiladu rhagweladwy'r datblygiad arfaethedig.

4.5. **Dylid nodi bod y cyfrifiad uchod yn ymwneud â datblygiadau 3-9 annedd yn unig.** Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol ym maes Tai Fforddiadwy yn cynnwys fformiwla ar wahân ar gyfer cyfrifo symiau gohiriedig yn lle gwneud darpariaeth ar y safle (h.y. datblygiadau o 10 neu ragor o anheddau). Bydd cyfle i ddiwygio'r fformiwla hon wrth adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. *Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17.* Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y flaenoriaeth gorfforaethol arfaethedig ganlynol:

- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da - bydd sefydlu mecanwaith gogyfer â sicrhau cyfraniadau ariannol gan ddatblygiadau tai llai eu maint yn cyfrannu tuag at ddarparu tai fforddiadwy yn y Sir.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes disgwyl y bydd cytuno ar fecanwaith interim gogyfer â chyfrifo cyfraniadau ariannol datblygiadau 3-9 annedd yn creu unrhyw gost ychwanegol. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y data gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu Ar-lein yn wasanaeth y mae'n rhaid talu amdano, ac mae'r adain Prisio ac Ystadau eisoes yn tanysgrifio iddo. Bydd

swyddogion o'r adain Prisio ac Ystadau'n darparu'r ffigwr cost adeiladu ar adegau cytunedig (e.e. yn flynyddol).

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Ni ystyrir fod Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol gogyfer â'r penderfyniad hwn. Mae'r egwyddor o fynnu cyfraniadau ariannol gogyfer â thai fforddiadwy gan ddatblygwyr wedi'i sefydlu yn sgil mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Dim ond mewn perthynas â'r mecanwaith gyfrifo y mae a wnelo'r penderfyniad hwn. Cynhaliwyd asesiad llawn o effaith y Cynllun Datblygu Lleol ar gydraddoldeb ym mis Mai 2011.

**8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol, ond mae ymgynghori mewnol wedi'i gynnal gyda swyddogion yn y Gwasanaeth Tai a Datblygu Cymunedol, yn yr Adain Rheoli Datblygu ac yn yr Adain Prisio ac Ystadau. Cafodd adroddiad ynglŷn â'r mater hwn ei gyflwyno hefyd i gyfarfod cyntaf Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Aelodau ar 18 Medi, ac roedd cefnogaeth gyffredinol yno i'r argymhelliad.

8.2 Bydd y dull terfynol o sicrhau cyfraniadau gogyfer â datblygiad 3-9 annedd wedi ei gynnwys o fewn y Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig ym maes Tai Fforddiadwy, sy'n amodol ar ymgynghori'n gyhoeddus yn eu cylch.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau fod wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Yn absenoldeb mecanwaith interim i gyfrifo cyfraniadau ariannol gogyfer â datblygiadau 3-9 annedd, mae risg na fydd y Cyngor yn gallu gweithredu polisi'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithiol hyd nes y bydd Canllawiau Cynllunio Atodol newydd ym maes Tai Fforddiadwy wedi cael eu mabwysiadu, a gallai hynny gymryd cryn amser. Byddai hyn yn arwain at fethiant i sicrhau'r swm llawn o gyfraniadau ariannol a fyddai ar gael yn sgil datblygiadau tai newydd. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol ym maes Tai Fforddiadwy yn ymwneud â pholisi'r Cynllun Datblygu Unedol blaenorol, nad yw'n cynnwys gofyniad am gyfraniadau ariannol, ac felly ni ellir dibynnu arnynt i ddarparu canllawiau cynllunio digonol yn y cyfamser.

**11. Y Grym i wneud Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (Adran 2004)